Yr Anrhydeddus Augusta Hall, Arglwyddes Llanofer, 'Gwenynen Gwent', 1802–96

'Ni ddaw da o hir arofyn'
Arwyddair y teulu

Ganed Augusta Waddington ar 21 Mawrth 1802 yn ferch i Benjamin Waddington a Georgina Port, Tŷ Uchaf, Llanofer. Ym 1823 priododd â Benjamin Hall, bonheddwr o sir Benfro a gŵr o gryn awdurdod. Ef a arolygodd y gwaith o atgyweirio Tŷ'r Cyffredin yn Llundain, a phan godwyd y cloc mawr galwyd ef yn Big Ben ar ei ôl. Pan briododd y ddau unwyd dwy stad, sef Llanofer ac Abercarn, ac afraid dweud eu bod yn bur gefnog.

Cymdeithasai'r Arglwyddes a'i gŵr â'r cylchoedd breiniol ac yr oeddent yn gyfeillion personol â'r Frenhines Victoria. Dechreuodd ymddiddori yng Nghymru, ei chyflwr ysbrydol, ei hiaith, ei hanes a'i thraddodiadau, a gwnaeth gyfraniad gwerthfawr. Cymerodd ran mewn cystadleuaeth yn eisteddfod Caerdydd ym 1834 trwy ysgrifennu traethawd yn dwyn y teitl 'Y fantais i'r Cymry o gadw eu hiaith a'u gwisg' a mabwysiadodd yr enw barddol Gwenynen Gwent. Trodd ei chartref yn ganolfan Gymreig a dywed rhai iddi ddysgu Cymraeg yn rhugl ac mai'r 'fain, firain, gain Gymraeg' oedd iaith ei chartref yn Llanofer. O dan ddylanwad Thomas Price (Carnhuanawc) daeth yn aelod o Gymreigyddion y Fenni, a thrwy'r gymdeithas hon enynnwyd ynddi ddiddordeb mewn canu gwerin Cymraeg a'r delyn deires. Yr oedd yn noddwr hael i'r Welsh Manuscripts Society ac i'r Welsh Collegiate Institution, Llanymddyfri, a phrynodd lawysgrifau diddorol Edward Williams (Iolo Morganwg) gan ei fab Taliesin Williams (ab Iolo). Cyfrannodd yn ariannol tuag at eiriadur y Canon D. Silvan Evans, a chyflawnodd waith eithriadol o bwysig mewn cydweithrediad â Maria Jane Williams a Brinley Richards yn casglu alawon gwerin Cymru a'u rhoi ar gof a chadw. Golygodd *The Autobiography and Correspondence of … Mrs. Delaney* (1861)

a chyhoeddodd lyfr coginio yn dwyn y teitl ysblennydd *Good Cookery*... a *Recipes communicated by the Hermit of the Cell of St. Gover*... (1867). Yn hwn yr oedd casgliad o luniau lliw o wisgoedd traddodiadol merched Cymru, a rhain a'r ysbrydolodd y syniad sydd gennym o'r wisg fenywaidd draddodiadol Gymreig.

Magwyd yr arglwyddes fel aelod o Eglwys Loegr ond cefnodd ar y traddodiad hwnnw oherwydd yr agweddau gwrth-Gymreig a amlygid ganddynt. Sefydlodd Ysgol Llanymddyfri, cyfrannodd at achos Llanofer, adeiladwyd eglwys wych yn Abercarn trwy ei nawdd hael, ac ym 1874 cyflwynodd yr eglwys a'r persondy i Gyfundeb y Methodistiaid er mwyn iddo fod yn achos Cymraeg. Dangosodd ddiddordeb yng ngwaith yr ysgolion Sul a bu'n fwy na pharod i noddi rhai ohonynt.

Yr oedd hefyd yn gefnogwr brwd i'r mudiad dirwestol. Caeodd bob tafarn oedd ar ei thir gan eu troi yn dai dirwest, a gwrthododd yn bendifaddau bob cais a ddaeth i adeiladu tŷ tafarn newydd. Cyfaill mawr iddi am gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain oedd y Parch. Edward Mathews, Ewenni. Bu farw ei gŵr ym 1868, a hithau 28 mlynedd yn ddiweddarach ar 17 Ionawr 1896.